



Pennaeth/Headteacher: Mr Alex Lewis
admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru
Martin Crescent, Tonyrefail, CF39 8NT
01443 670319
<https://www.ygg-tonyrefail.cymru/>

Pob Munud yn Cyfri

Yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail, rydym yn credu'n gryf fod **pob munud yn cyfri**. Rydym yn deall yn iawn y gall boreau fod yn brysur ac, ar adegau, yn heriol i deuluoedd. Gall amgylchiadau annisgwyl godi, ac rydym yn gwerthfawrogi'r ymdrech fawr y mae rhieni a gofalwyr yn ei gwneud i sicrhau bod plant yn cyrraedd yr ysgol yn barod i ddysgu.

Fodd bynnag, mae prydlondeb yn chwarae rhan bwysig iawn ym mywyd ysgol plentyn. Mae cyrraedd mewn pryd yn sicrhau bod disgyblion yn gallu setlo'n gadarnhaol, cymryd rhan ym mhob gweithgaredd boreol a dechrau'r diwrnod ochr yn ochr â'u cyfoedion. Gall colli hyd yn oed ychydig funudau ar ddechrau'r dydd olygu colli cyfarwyddiadau pwysig, gweithgareddau dysgu gwerthfawr a chyfleoedd i gymdeithasu gyda ffrindiau.

Fel atgoffa, mae gatiâu'r ysgol yn cael eu cloi am **9:10am**. Bydd unrhyw ddisgybl sy'n cyrraedd am **9:15am neu'n hwyrach** yn cael ei gofnodi fel un hwyr yn y gofrestr ysgol.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus wrth ein helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w ddiwrnod ysgol. Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod **pob munud yn cyfrif**.

Gwasanaeth Cynhaef yn Eglwys St David's

Rydym yn falch iawn y bydd côr bach o ddisgyblion Blynnyddoedd 4, 5 a 6 yn cynrychioli'r ysgol drwy ganu yng ngwasanaeth y Cynhaef yn Eglwys St David's, Tonyrefail, ar fore Sul 11 Hydref. Mae hwn yn gyfle hyfryd i'r disgyblion gyfrannu at fywyd y gymuned leol a rhannu eu doniau gyda'r gynulleidfa. Bydd llythyr a ffurflen ganiatâd yn cael eu hanfon at rieni'r disgyblion perthnasol ar ddechrau'r wythnos nesaf. Nodwch taw nid pawb o flwyddyn 4, 5 a 6 yw hwn; yn hytrach, disgyblion sydd wedi dangos diddordeb.



Pennaeth/Headteacher: Mr Alex Lewis
admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru
Martin Crescent, Tonyrefail, CF39 8NT
01443 670319
<https://www.ygg-tonyrefail.cymru/>

Ap My Child at School (MCAS) a Bromcom

Rydym wedi anfon e-bost at bob rhiant y mae gennym gyfeiriad e-bost ar ei gyfer ynglŷn â lawrlwytho ap **My Child at School (MCAS)**. Mae cyfarwyddiadau cam wrth gam wedi'u cynnwys i'ch helpu i osod a defnyddio'r ap.

Unwaith y byddwch wedi cofrestru a mewngofnodi, byddwch yn gallu rhoi gwybod i'r ysgol am unrhyw absenoldebau neu geisiadau am wyliau yn uniongyrchol drwy'r system. Yn ogystal, byddwn yn defnyddio MCAS maes o law i drefnu a bwcio apwyntiadau ar gyfer Noson Rhieni ym mis Tachwedd.

Mae'r llythyr Bromcom hefyd ar gael ar wefan yr ysgol o dan yr adran '**Llythron**'. Gofynnwn yn garedig i chi gymryd ychydig funudau i'w ddarllen er mwyn sicrhau bod ein llwybrau cyfathrebu mor glir ac effeithiol â phosibl. Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth.

Dyddiadau Pwysig y Tymor		
Dyddiad	Digwyddiad	Pwy?
Wythnos yn cychwyn 14/9	Clybiau'n ailddechrau	Blynyddoedd 1-6
25/9	Prynhawn goffi Macmillan	
28/9	Sesiynau Cwrdd a'r Athro 4:00 a 4:30	Meithrin i flwyddyn 6
1/10	Diwrnod Pontio Blwyddyn 6 i Lanhari – gwisg addysg gorfforol a phecyn bwyd	Blwyddyn 6
12/10	Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd – Dim Ysgol i ddisgyblion	Meithrin i flwyddyn 6
13/10	Cystadleuaeth Pêl droed agored yr Urdd	Blwyddyn 5 a 6
15/10	Diwrnod Shwmae/Su'mae	
16/10	Gwisgo Coch i'r ysgol er mwyn nodi Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth	Meithrin i flwyddyn 6
22/10	Chwistrell trwyn y fflw	Meithrin i flwyddyn 6
22/10	Disgo Calan Gaeaf – manylion i ddilyn	Meithrin i flwyddyn 6



Pennaeth/Headteacher: Mr Alex Lewis

admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru

Martin Crescent, Tonyrefail, CF39 8NT

01443 670319

<https://www.ygg-tonyrefail.cymru/>

26/10 – 30/10	Hanner Tymor	
9/11 a 10/11	Nosweithiau Rhieni – manylion i ddilyn	Derbyn i flwyddyn 6
12/11	Cystadleuaeth Pêl droed Merched yr Urdd	Blwyddyn 5 a 6
12/11	Cystadleuaeth Pêl droed Cymysg yr Urdd	Blwyddyn 3 a 4
20/11	Diwrnod Plant Mewn Angen – Disgyblion i wisgo dillad eu hun	Meithrin i flwyddyn 6
09/12	Cyngerdd Nadolig yn yr ysgol	Blynyddoedd 1 a 2
10/12	Diwrnod Siwmperi Nadolig (neu eitem Nadolig)	Meithrin i flwyddyn 6
10/12	Ffair Nadolig	Meithrin i flwyddyn 6
15/12	Cyngerdd Nadolig yn Eglwys Dewi Sant	Blynyddoedd 3-6
17/12	Cyngerdd Nadolig yn yr ysgol	Meithrin a Derbyn
18/12	Diwrnod olaf tymor	Meithrin – Blwyddyn 6